O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 582 (Cy. 83)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren) i Ffin Cymru/Lloegr, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2024

*Gwnaed* *30 Ebrill 2024*

*Yn dod i rym* *8 Mai 2024*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren) i Ffin Cymru/Lloegr, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Mai 2024.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 21:00 o'r gloch ar 8 Mai 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A55 Caer i Fangor.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**6.** Nid yw'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 30 Ebrill 2024

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

### Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

1. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A55 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren) i gyfeiriad y dwyrain hyd at ffin Cymru/Lloegr.

2. Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren).

3. Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 36A (Brychdyn).

4. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A55 sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr i gyfeiriad y gorllewin hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren).

5. Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren).

6. Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 36A (Brychdyn).